Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Jeremy Miles AS,
Y Cwnsler Cyffredinol

22 Medi 2020

Annwyl Jeremy

**Gwaith dilynol i sesiwn graffu'r Pwyllgor ar 21 Medi 2020**

Diolch i chi am ddod i gyfarfod ein Pwyllgor ddoe i drafod Bil Marchnad Fewnol Llywodraeth y DU a materion cyffredinol sy'n ymwneud â deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE.

Dywedasoch y byddech yn dod yn ôl atom gyda gwybodaeth bellach ynglŷn â dau fater.

Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r amseriad ar gyfer cynnig cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil Pysgodfeydd y DU. Deallwn fod y cynnig hwn i fod i gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Medi 2020. Byddem yn ddiolchgar pe byddech yn cadarnhau a yw'n fwriad gan Lywodraeth Cymru ohirio'r ddadl hon nes bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, sy'n cael ei ddatblygu gyda Llywodraeth y DU, wedi cael ei rannu â'r Senedd.

Mae'r ail fater y dywedasoch y byddech yn darparu mwy o fanylion yn ei gylch yn ymwneud â'r Gorchymyn adran 109 disgwyliedig, a'ch llythyr atom dyddiedig 10 Medi 2020. Byddem yn ddiolchgar pe byddech yn egluro a yw Llywodraeth y DU wedi rhoi unrhyw ymresymiad ichi dros ohirio'r Gorchymyn hwn.

Ymhellach i'r ddau bwynt hyn, byddem yn ddiolchgar o gael eich ymateb i ddau gwestiwn nas cyrhaeddwyd yn ystod y sesiwn:

– A allwch chi roi gwybod i'r Pwyllgor am y graddau y gallai ailgyfeirio adnoddau Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar y pandemig Covid-19 effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i weithredu'r rhaglen sylweddol o is-ddeddfwriaeth yn bydd ei hangen yn gysylltiedig ag ymadael â'r UE.

– Pa asesiad a wnaed o'r risg yn sgil peidio â chael yr holl ddeddfwriaeth angenrheidiol ar waith erbyn diwedd y cyfnod pontio, a sut y bydd Llywodraeth Cymru'n lliniaru hyn?

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb gennych cyn gynted â phosibl.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English